# y DINESYDD

MAWRTH 1995 — "LLAIS Y GYMUNED" — *PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH* — RHIF 206


# Newid mawr yn Oriel

FE fydd staff Oriel yn wynebu llawer o brysurdeb yn y man. Mae'n rhaid tynnu rhai o'r silffoedd arddangos sydd yno ar hyn o bryd i lawr i wneud mwy o le ar gyfer y stoc newydd fydd yn dod yno yn fuan.

Mae hyn, wrth gwrs, oherwydd bod HMSO wedi cymryd y lle drosodd a bydd peth newid yn anorfod. Ond mae'n dda dweud y bydd yr arlwy Cymreig fel yr oedd o'r blaen

Un newid na fydd mor amlwg i'r cyhoedd yw'r ffaith y bydd llawer o'r deunyddiau a'r llyfrau fydd ar werth "o dan y cownter", neu o leiaf yng nghefn y siop.

Mae gan HMSO nifer o ddefnyddiau na fyddan nhw'n eu harddangos, dogfennau o bob math, yn gyfreithiol a masnachol ac ati. Fe fydden nhw'n rhy anniddorol i'w rhoi ar silffoedd.

Newid arall na fydd yn digwydd ar unwaith fydd colli, o bosibl, yr adran gelfyddydol. Mae'r adran hon wedi bod yn rhan annatod o Oriel drwy'r blynyddoedd a rhaid wrth dipyn o drafod cyn penderfynu dim, ond efallai y gwelir ei throsglwyddo i ganolfan gelfyddydol sy'n fwy cydnaws â hi yn y man. Un ganolfan a



*SIOP ORIEL: Arddangosfa dda o lyfrau a chardiau bob amser*

*Llun: Brian Tarr*

ddaw i'r meddwl yn syth yw'r hen lyfrgell. Mae gobaith y caiff yr adeilad hwn ei ddatblygu fel canolfan gelfyddydol ac os digwydd hynny, bydd yn fan gwych ar gyfer yr arddangosfeydd sydd yn cael eu cynnal yn Oriel ar hyn o bryd.

Wrth edrych yn ôl, mae Oriel wedi bod yn destun beirniadaeth gan amryw, yn enwedig masnachwyr llyfrau. Teimlent bod y siop

*parhad ar dud 2*

## Glantaf yn gorlenwi?

ÂNINNAU ar fin mynd i'r wasg deallwyd bod Awdurdod Addysg De Morgannwg wedi datgelu ei fwriad i ehangu'r cyfleusterau ar ddau safle Glantaf i ymateb i'r galw cynyddol am addysg uwchradd Gymraeg yn y sir.

Rhyddhawyd yr wybodaeth, oedd yn gyfrinachol cyn hynny, mewn ymateb i gais gan ohebydd o'r wasg leol wedi i'r mudiad Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHAG) gyhoeddi datganiad yn beirniadu'r awdurdod am ei ddiffyg cynllunio.

Mae manylion y cynllun yn aneglur ond ar sail niferoedd y plant yn ysgolion cynradd Cymraeg y sir, Glantaf fydd yr ysgol uwchradd fwyaf yng Nghymru, o bell ffordd, gyda bron 3000 o blant erbyn y flwyddyn 2000.

Bwriedir dwy ysgol, felly, yn ôl pob golwg, un ar bob safle. Bydd yn ddiddorol gweld manylion y cynllun ac os yw'r cyllid digonol wedi ei glustnodi ar gyfer yr ehangu, mae angen cryn wario ar y ddau safle eisoes oherwydd cyflwr yr adeiladau.

Mae rhieni a llywodraethwyr yn sicr o fod yn anfodlon am y modd y rhyddhawyd yr wybodaeth ac am ofyn nifer o gwestiynau am fanylion y cynllun yn yr wythnosau nesaf. A chyda'r

*parhad ar dud 2*

## Y TU MEWN I'CH DINESYDD...


| | |
|---|---|
| Dyfodol y Dinesydd | 2 |
| Pytiau | 3-4 |
| Dysgu Cymraeg | 5 |
| Ysgolion | 6-7 |
| Cofio | 8-9 |
| Fuoch chi rioed yn morio? | 10 |
| Chwaraeon | 11 |
| Croesair | 12 |
| Celfyddydau | 12 |

# Newid mawr yn Oriel

☛ *parhad o dud 1*

yn cael gormod o gymorth ariannol ac nad oedd yn gorfod brwydro fel siopau eraill yn y farchnad agored.

Ond mae ochr arall i ddadl o'r fath. Fe ddylai cyflwyno llenyddiaeth Cymru i'r cyhoedd fod yn un o brif swyddogaethau siop lyfrau yng Nghymru, ac mae'n bwysig i'r darllenydd cyffredin fedru mynd i fan fel Oriel i weld swm aruthrol cynnyrch blynyddoedd diwethaf y farchnad lyfrau a chardiau ac ati. Mae'n iawn i'r llywodraeth roi ychydig o arian trethdalwyr Cymru yn ôl iddo fel y gall weld hyn.

Contract tair blynedd i redeg y lle sydd gan HMSO a bydd Cygnor Celfyddydau Cymru'n monitro pob datblygiad yn gyson. Asiant y Llywodraeth yw HMSO, a bydd yn rhedeg y cyfan fel menter fasnachol heb unrhyw gymorthdaliadau. **D**

## ORIEL: Y GORFFENNOL

Mae llawer o dd ŵr wedi mynd o afon Taf i'r môr er i Oriel gychwyn. Yn 1969 comisiynodd Pwyllgor Llenyddiaeth Cyngor y Celfyddydau femorandwm, *The Final Link* gan Raymond Garlick.

Gwelai ef angen am siop lyfrau gynhwysfawr yn y brifddinas. Yr adeg honno, doedd dim siop lyfrau gwir gynhwysfawr gyda ni; yn wir roedd nifer o siopau llyfrau dros Gymru'n tueddu at fod yn fychan ac anneniadol ac roedd y llyfrau Cymraeg yn amlach na pheidio allan o'r golwg.

Os oeddech chi am lyfr Cymraeg arbennig, y byrdwn oedd, "Fe ordrwn ni fe ichi. Galwch eto."

Oherwydd hyn a rhesymau eraill, y sefydlwyd Siop Oriel yn Heol Siarl ym 1974. Ar y pryd fe gytunwyd i H.J.Lear stocio'r siop fel asiantaeth ond daeth y trefniant hwn i ben yn 1977.

Fe ddaeth les Heol Siarl i ben yn 1989 a symudodd Oriel i'r lle newydd yn Heol y Brodyr Llwydion yr adeg honno.

# Glantaf yn gorlenwi?

☛ *parhad o dud 1*

cyfweliadau ar gyfer prifathro newydd Glantaf yn cael eu cynnal yn y dyddiau nesaf bydd pwysau mawr ar yr awdurdod i egluro'i fwriad yn llawn.

Bu RHAG yn ymgyrchu'n gyson dros y misoedd diwethaf gan gyfarfod , Tom Davies, y cyfarwyddwr addysg a'i swyddogion i drafod y sefyllfa. Cafwyd addewid yn y cyfarfod hwnnw y byddai Gweithgor Addysg Gymraeg yr awdurdod yn cael ei ailgynnull i gynnig argymhellion i'r cyfarwyddwr, ond ni ryddhawyd unrhyw wybodaeth am eu trafodaethau.

Dyw'r cynlluniau ynghylch Glantaf ddim yn datrys problemau rhieni'r Fro. Er bod 'na gynnydd yn niferoedd y plant sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg yno fe fyddan nhw'n dal i orfod teithio cryn bellter i Gaerdydd, ar ffyrdd prysur ar yr oriau brig, ar gyfer eu haddysg uwchradd. Dadl y rhieni sy'n byw yn y Fro yw y byddai llawer rhagor yn anfon eu plant i ysgolion Cymraeg petai ysgol uwchradd Gymraeg yn y Fro ei hun. **D**



# y DINESYDD

Mawrth, 1995. Rhif 206.

Cyhoeddir gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig. Dyluniwyd gan Newsline, Caerdydd. Argraffwyd gan CIT Printing Services, Hŵlffordd.



## GAIR GAN GADEIRYDD PWYLLGOR Y DINESYDD

AFRAID dweud i'r misoedd diwethaf fod yn rhai anodd i'r Dinesydd, fel petai hirlwm gaeaf am adael ei ôl arno. Calondid i ni fel pwyllgor bychan fodd bynnag yw deall o sawl cyfeiriad bod llawer wedi cael blas ar gynnwys y papur yn ystod y flwyddyn a rhagor y buom wrthi. Diolch i'r cyfranwyr oll am ddeunydd oedd yn adlewyrchu amrywiaeth a bywiogrwydd bywyd Cymraeg Caerdydd a'r Fro. I Catrin Lloyd Rowlands y mae'r diolch am gymryd y baich o baratoi'r gwahanol rifynnau ar gyfer y wasg a mawr yw ein dyled iddi.

Cwmni Icon Design fu'n cysodi ac yn cyhoeddi'r Dinesydd yn ystod y cyfnod yma ac roedd graen ac eglurder ar y diwyg bob amser.

Rydym yn mentro i bartneriaeth newydd yn y rhifyn hwn gyda Chwmni Tim Pearce, Newsline Publishing. Bydd Tim hefyd yn gyfrifol am ddenu hysbysebion a nawdd. Panel golygyddol sy'n gyfrifol am y papur ar hyn o bryd a chewch weld isod ble i anfon eich gwahanol ddefnyddiau a pha bryd i wneud hynny.

**John Rowlands**

## Y TÎM GOLYGYDDOL

O hyn ymlaen panel golygyddol fydd yn gyfrifol am gyhoeddi'r Dinesydd. Anfonwch unrhyw ddeunydd at:

**Mr Tom Davies**, 41 Highfields, Caerdydd (564540): Chwaraeon

**Mr B D Harries**, 6 Lakeside, Caerdydd (756562): Addysg

**Mr Wyn James**, 16 Ffordd Kelston, Caerdydd (628754): Cyffredinol

**Mr W J Jones**, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282): Cyffredinol

**Mr Gwilym Roberts**, 6 Heol Wen, Caerdydd (693254): Newyddion

*Mae'n bwysig i bopeth gyrraedd erbyn y 10fed o bob mis ar gyfer rhifyn y mis canlynol.*

## HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn ffordd ddelfrydol i gyrraedd sylw siaradwyr Caerdydd a'r cylch. Os am hysbysebu, bydd dwch cystal a chysylltu â Mr Tim Pearce, Newsline, 24 James Street, Bae Caerdydd CF1 6EX. Ffôn 452383.

## Un o'r gymuned...

YN ddiweddar cyhoeddodd Glennys Roberts, a ymgartrefodd yn yr Eglwys Newydd ers pedair blynedd, y gyfrol *Un o'r Teulu.* Hanes ei magwraeth ydyw fel merch y mans mewn ardaloedd pur wahanol i'w gilydd. Yn 1981 golygodd Mrs Roberts gasgliad o gerddi ei thad, y Prifardd William Morris, dan y teitl Canu Oes, ac yn 1991 cyhoeddodd *Dyddiadur Dychwel*, nofel ar ffurf dyddiadur. Gwasg Gwynedd sy'n cyhoeddi.

## Pum Diwrnod o Ryddid

YN dilyn llwyddiant perfformiadau'r blynyddoedd diwethaf o "Joseff" ac "Elfis" mae Côr Ysgol Glantaf yn mynd i berfformio "Pum Diwrnod o Ryddid" ar Ebrill 4, 5, a 6. Linda Gittins, Penri Roberts a Derec Williams sydd wedi sgrifennu'r sioe ac mae'n sôn am ymgyrch y Siartwr yn Llanidloes yn 1839. Fe fu nifer o gyfarfodydd yn y dref ac yn dilyn un ohonyn nhw restiwyd tri o arweinwyr y mudiad. Cawsant fynd i westy yn y dref ond ymosododd y dorf arno a rhyddhau'r tri. Yn dilyn hyn llwyddodd i Siartwyr i reoli'r dref am bum diwrnod.

Methiant fu'r gwrthryfel yn y diwedd a defrydwyd rhai o'r arweinwyr i flynyddoedd o alltudiaeth a charcharwyd eraill.

## Gwaelod-y-garth

YN ystod mis bach dathlwyd dau ddyddiad pwysig yn hanes Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Ganrif yn ôl y ganed R G Berry, un o weinidogion enwocaf y Capel, a deng mlynedd yn ôl y daeth y Parch T J Davies i fugeilio'r Eglwys.

Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau eisoes i nodi cyfraniad R G Berry fel gweinidog, pregethwr a llenor. Un o'r uchafbwyntiau hyd yn hyn, mae'n sicr, oedd darlith gan yr Athro Hywel Teifi Edwards, a bydd cyfres o ddramâu ar hanes Berry wrth i'r rhifyn hwn fynd trwy'r wasg, sef Chwefror 15, 16, ac 17. Bydd adroddiad arnyn nhw yn rhifyn Ebrill.

Hyd yn hyn does dim sôn am lwyfannu drama am gyfraniad y Parch T J Davies. Byddai rhai'n honni ei fod e'n ddigon o ddrama ynddo'i hun!

## Côr Polyffonig

AR DDYDD Sadwrn olaf Ionawr, fe ddaeth Côr Polyffonig Caerdydd i ddiddori cynulleidfa luosog yn Eglwys Dewi Sant yn y ddinas. Cafwyd datganiad gwych o Offeren Fauré ynghyd â darnau unigol. Dywedodd yr Ysgrifennydd, Mr Howard Goodfellow, bod croeso i leisiau newydd ymuno â'r côr ar hyn o bryd. Caiff y rhai lwcus gyfle i deithio byd gydag un o gorau gorau Prydain. Mae'n glod i'r brifddinas

## Croeso

CROESO cynnes i'r Parchedig a Mrs. Gareth H. Davies sydd wedi symud o Rydaman i fyw yn yr Eglwys Newydd. Dymunwn ymddeoliad dedwydd iddyn nhw yn ein plith.

PYTIAU

## Priodas hapus!

PRIODAS hapus i Siân Elin Jenkins, Mavis Grove, Rhiwbeina, ac Andy Dixon o Basingstoke, Swydd Hampshire. Cynllunydd ar ei liwt ei hun yw Siân Elin. Mae'n cynllunio gwisgoedd ar gyfer teledu a ffilmiau ac mae Opera Cenedlaethol Cymru'n galw am ei gwasanaeth yn gysod.

Mae Andy'n paratoi trafnidiaeth ac ati ar gyfer y cyfryngau, ond mae ganddo dasg ychwanegol y dyddiau hyn, gloywi ei Gymraeg fel ail iaith i honno fod yn iaith gyntaf yn y man ar eu haelwyd newydd yn Grangetown.

## Cyfraniad o safon uchel

NOS Wener 16 Chwefror daeth cynulleidfa gref i Gapel y Crwys i gefnogi'r doniau ifanc. Cafwyd cyfraniadau amrywiol gan nifer fawr o ieuenctid a hwnnw o safon uchel. Amlygai hyn ddawn gynhenid arbennig (yn enwedig ymhlith rhai o'r cyfranwyr), hyfforddiant sensitif ac ymarfer caled.

Trefnwyd y noson gan Mrs Nest Owen. Gofalodd nad oedd un cyfraniad hirwyntog a allai amharu ar y datganiadau. Sicrhaodd y gefnogaeth gref y bydd y Crwys maes o law yn cyflwyno siec o dros £600 i Tenovus.

## Cydymdeimlad

FE garai'r Dinesydd gydymdeimlo â rhai a gollodd anwyliaid yn ddiweddar.

Collodd Mr Idris Morgan, Rannock Drive ei fam yn Ysbyty Ystwyth, Dyfed. Pe bai wedi cael byw byddai'n 95 oed ar ddechrau'r mis hwn. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Ystrad Fflur.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Tudor Phillips, Pen-y-groes Avenue, Rhiwbeina, a fu farw ganol Chwefror. Fe fu Tudor yn gweithio am flynyddoedd gydag Adran Newyddion y BBC. Cyn iddo ddod i fyw i Gaerdydd gweithiai ar y Cambrian News yn Aberystwyth.

## Llongyfarchion

RYDYN ni i gyd yn ymfalchïo yn llwyddiant Katherine Davies a benodwyd yn brifathrawes ysgol gyfun newydd sbon Rhyd-y-waun, Hirwaun ger Aberdâr yn ddiweddar. Saesneg oedd iaith Katherine pan oedd yn chwech oed ond bu'n ddigon lwcus i ddod i fyw i Dde Cymru pan oedd yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn agor a chafodd ei haddysg uwchradd yn Rhydfelen o 1971 hyd 1978. Ar hyn o bryd mae Mrs Davies (a oedd yn Katherine Lewis yn yr ysgol) yn ddirprwy brifathrawes yn Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin. Bydd ganddi dros fil o blant dan ei gofal wedi i'r ysgol newydd gyrraedd ei llawn dwf.

# Amser stori




MAE "Amser Stori" ar gyfer y plant lleiaf yn cael ei gynnal yn Gymraeg yn Llyfrgell yr Eglwys Newydd bob prynhawn dydd Mercher rhwng 2.15 a 2.45 o'r gloch. Mae'r detholiad o lyfrau Cymraeg yn y llyfrgell wedi'i helaethu rywfaint yn ddiweddar - cofiwch eu benthyca.

# O Lantaf i Rydychen a Chaer-grawnt

YN ddiweddar, llwyddodd tri o ddisgyblion Glantaf i sicrhau lleoedd ym Mhrifysgolion Rhydychen a Chaer-grawnt.

Cynigiwyd lle yng Ngholeg Mansfield, Rhydychen i Catrin Roberts i astudio Saesneg. Mae Catrin yn astudio Saesneg, Cymraeg a Hanes yn y chweched dosbarth yn ogystal â dilyn cwrs uwch atodol Ffrangeg. Llwyddodd yn ei harholiad uwch atodol Cerdd llynedd. Mae gan Catrin ddiddordeb mewn siarad cyhoeddus ac mae hi yn aelod o Fand Chwythbrennau De Morgannwg.

Llwyddodd Carys Moseley i sicrhau lle yng Ngholeg Peterhouse, Caer-grawnt i astudio'r Clasuron. Mae Carys yn astudio Cerdd, Hanes a Lladin ar gyfer ei harholiadau Lefel A. Llwyddodd i gyrraedd y safon uchaf yn ei harholiad lefel A Ffrangeg llynedd. Mae hi'n aelod o gerddorfeydd Ieuenctid a jazz De Morgannwg. Enillodd gadair Eisteddfod Glantaf llynedd.

Enillodd Alun Simpson le yng Ngholeg Gonville, Caer-grawnt i astudio Hanes. Mae Alun yn astudio Hanes, Saesneg a Mathemateg ar gyfer ei arholiadau Lefel A. Uchelgais Alun yw bod yn newyddiadurwr.

Llongyfarchiadau gwresog i'r tri.

# Hwb i ddwy ysgol

MAE Ysgol Gymraeg Pen-y-cae, Llandaf ac Ysgol Gymraeg Penarth ymhlith nifer o ysgolion yn Ne Morgannwg fydd yn elwa yn sgil cyhoeddiad diweddar y Pwyllgor Addysg ynghylch gwariant ar adeiladau.

Clustnodwyd £3.5m gan y sir i wella cyfleusterau mewn nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r ddwy ysgol Gymraeg ymhlith y rhai sy'n cael blaenoriaeth oherwydd bod angen gwella'r cyfleusterau ynddyn nhw a darparu ar gyfer y cynnydd mewn addysg Gymraeg yr un pryd.

Yn ysgol Pen-y-cae caiff adeiladau eu hehangu ar gyfer un dosbarth llawn ym mhob blwyddyn ysgol. Fe fydd Ysgol Penarth yn cael gwared ar y cytiau dros dro a chaiff yr ysgol ei hehangu i ddarparu ar gyfer dau ddosbarth llawn ym mhob blwyddyn ysgol.

# Eciwmenaeth yng Nghaerdydd

BU nifer o ddatblygiadau ecwmenaidd arwyddocaol yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio sefydlwyd Fforwm Eglwysi Caerdydd. Y mae ganddo dri nod: tystio i undod a phwrpas cyffredin yr eglwysi, cadarnhau a chryfhau cyd-weithio rhwng yr eglwysi ac asiantu yn y gymuned.

Dygir at ei gilydd gynrychiolwyr yr enwadau, eglwysi lleol a chynghorau eglwysi, ynghyd ag asiantau ecwmenaidd lleol, ac y mae'n cyd-weithio ag asiantau statudol a gwirfoddol lleol. Gobeithia ddod o hyd i ffordd o alluogi cyfathrebu mwy effeithiol rhwng grwpiau ecwmenaidd lleol a Cytun.

Sefydlwyd dau brosiect pwysig. Y mae Llong Olau Caerdydd wedi ei hanghori ym Masn y Rhath yng nghalon Datblygiad Bae Caerdydd. Hwn fydd un o brif atyniadau twristiaid Cymru yn fuan. Noddir y Llong Olau gan brif enwadau Cymru ac mae'n datblygu i fod yn ganolfan greadigol i weini gofal ac i dystiolaeth fywiog ymhlith ieuenctid lle maen nhw'n byw, gweithio a mwynhau eu hamdden. Dyma weledigaeth o'r Eglwys yn bresennol mewn ardal ddatblygu arwyddocaol.

Lleolir Canolfan Eglwysi Caerdydd yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig City yn Windsor Place a gobeithir y bydd yn datblygu i fod yn ganolfan i weinidogaeth a chenhadaeth i'r ddinas, yn cynnwys canolfan wybodaeth a chaplaniaeth dinesig a diwydiannol. Y mae eisoes yn gweithredu fel Canolfan Addysg oedolion Caerdydd ac yn fan cyfarfod i nifer o fudiadau megis CRUISE ac "Alcoholics Anonymous".

# Cymrodorion Caerdydd

BYDDAI'R selocaf o'r aelodau yn barod i gydnabod fod tymor 1994 - 1995 wedi bod yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yn ansawdd y cyfarfodydd a nifer yr aelodau ynddynt. Mae'r llwyddiant i'w briodoli'n sicr i afiaith a dygnwch y Llywydd eleni, Hywel Jeffreys. Cofir yn hir am noson arwisgo'r Llywydd, sgwrs gartrefol Sulwyn Thomas, darlith lenyddol Dafydd Ifans, Aberystwyth, dathlu'r Hen Galan mewn noson o adloniant bythgofiadwy, y noson gerddorol addysgiadol yng nghwmni Dr. Terry James a'r penllanw yn dathlu Gŵyl Dewi yn Neuadd Aberdâr a'r Athro Hywel Teifi Edwards yn ŵr gwadd ac ar ei orau yn sicr. Cafwyd eitemau cerddorol ac adroddiadau o safon proffesiynol.

# Byd y bêl

LLONGYFARCHIADAU i Andrew Grabham, disgybl yn Ysgol Glantaf, a chwaraeodd dros dim rygbi ysgolion Cymru yn erbyn Yr Alban a Seland Newydd yn ddiweddar.

**This month's Welsh learners' feature looks at methods of payment**

DYSGU CYMRAEG

GYDA ALUN A MAIR TREHARNE

# Yn hwyr neu'n hwyrach rhaid talu!

"PRYNWCH nawr - talwch wedyn"; "Credyd -%"; "Taliadau isel am y flwyddyn gyntaf". Ydy mae hi'n anodd osgoi (avoid) talu y dyddiau hyn. Osgoi talu am y tro, ond rhaid talu yn y man - a thalu'n hallt (pay through the nose) weithiau.

Mae dechrau blwyddyn yn amser drud fel arfer. Biliau cardiau credyd Nadolig i'w talu a blaendal (deposit) i'w dalu ar wyliau'r haf, heb sôn am y biliau sy'n cyrraedd bob tri mis - y trydan, y nwy a'r ffôn. Mae sawl ffordd o dalu bil, wrth gwrs, a bydd y rhan fwyaf o bobl yn defnyddio mwy nag un ffordd.

## Gydag arian

arian parod - cash
arian papur - notes
arian cywir - exact money
arian mân - small change

## Gyda siec

Cofiwch ofyn i'ch banc am sieciau Cymraeg ac ysgrifennu eich sieciau yn Gymraeg. Gallwch anfon eich siec drwy'r post neu ei thalu dros y cownter yn y banc neu yn Swyddfa'r Post.

## Drwy archeb banc / debyd uniongyrchol (direct debit)

Gadewch i'r banc wneud y gwaith drosoch chi. Dyma'r ffordd hawdd o dalu eich trethi, yswiriant, a biliau chwarterol - os oes digon o arian 'da chi yn eich cyfrif banc!

## Gyda cherdyn banc

Ffordd wahanol newydd o dalu am nwyddau, er enghraifft bwyd a dillad. Caiff yr arian ei dynnu'n syth o'ch cyfrif banc. Gallwch ddefnyddio cerdyn banc a cherdyn credyd i archebu a thalu am bethau dros y ffôn, er enghraifft tocynnau sinema.

## Gyda cherdyn credyd

Mae'r ffordd hon yn rhy hawdd, ac yn beryglus. Bydd eich waled/pwrs yn llawn cardiau plastig yn lle arian. Ond gall fod yn gyfleus os defnyddiwch eich cerdyn yn ddoeth.

## Benthyciad (Loan)

Ar gyfer costau mawr, fel arfer - newid car, efallai, neu ail-wneud y gegin.

Fydd dim angen benthyciad na cherdyn credyd arnoch chi i fynd i Eisteddfod y Dysgwyr ar 5 Ebrill! Bydd darn 50 ceiniog yn ddigon! **D**

CYD De Morgannwg

**EISTEDDFOD DYSGWYR DE MORGANNWG 1995**

**7.00pm, nos Fercher 5 Ebrill 1995 yng Nghanolfan yr Urdd Heol Conwy, Treganna, Caerdydd**

**Llywydd Anrhydeddus: Chris Rees**
**Arweinyddion: Adrian Price, Rhiannon Rees**

**BEIRNIAID**
**Cerdd: Iwan Guy**
**Adrodd: Mallt Anderson**
**Llên: Islwyn Jones**
**Coginio: Luned Davies Scott**
**Celf a Chynllun: Anthony Evans**

**Bydd te a choffi ar gael yn ystod yr Eisteddfod**

**Mynediad: 50 ceinog (wrth y drws)**

## Cyfraniadau gan blant ysgolion *Y Wern a Melin Gruffydd*

# Sioe Nadolig

CAFODD Ysgol y Wern Sioe Nadolig dda llynedd. Ei henw oedd "Dewin Os." Mwynheuodd pawb gymryd rhan yn chwarae offerynnau, canu yn y côr neu actio. Cyfnod o brysurdeb mawr oedd e yn yr ysgol cyn y sioe. Pawb yn edrych ymlaen ac yn teimlo'n gyffrous. Roedd pob un yn ymarfer yn ddi-baid.

Stori yw hon am ferch o'r enw Dorothy Jones o Gymru. Un diwrnod fe gododd corwynt a chludo Dorothy a'i thŷ i wlad ryfedd o'r enw Os. Yn ystod ei hantur yno daw ar draws nifer o gymeriadau diddorol gan gynnwys Bwgan Brain, y Dyn Tun, Llew Llwgr, Gwrach y Gogledd a'i gelyn pennaf, sef Gwrach y Gorllewin. Yr unig beth a all gadw Dorothy a'i ffrindiau rhag niwed yw pâr o Martens!

Gweithiodd pawb yn galed iawn yn ystod y perfformiad i blesio'r gynulleidfa. Hoffem ddiolch i'r athrawon yn fawr am weithio mor galed i'n dysgu mor dda. Hefyd hoffem ddweud diolch wrth y rhieni am helpu gyda'r gwisgoedd a'r colur gwych. Fe aeth yr arian a gasglon ni yn ystod y tri phrynhawn tuag at Tŷ Hafan.

Rhag ofn na welsoch chi'r sioe, dyma lun...

**Gwenllian Glyn**
**Catrine Davies**
**Ceri Mears**
***Ysgol y Wern***

## Y Cudyll Coch

Hedfan drwy'r awyr
Efo dy ddwy adain fawr,
O gil dy lygaid
Gweli fwyd ar y llawr.

Gwelodd pawb dy gysgod du
A rhedeg am le i guddio,
Ond daliest ti un o'r llygod mawr
A'i chodi yn dy grafanc
Oddi ar y llawr.

**Elin Rowlands, 10 oed**
***Ysgol Melin Gruffydd***

## Tywyllwch

Mae'r tywyllwch, y nos, yn rhywbeth du.
Rhywbeth sy'n codi ofn arna i.
Mae'r cysgodion yn od o gwmpas y lle.
Mae wedi dechrau nosi ers amser te.
Mae'r gwynt yn rhuo o amgylch y tŷ.
Digon i ddychryn rhywun bach fel fi.
Rwy'n clywed sŵn cripio a chrafu,
Yna mae Dad yn dechrau chwyrnu.
Mae'r tywyllwch gyda ni tan y bore.
Y golau dydd, dyna'r amser gorau.

**Rhiannon Evans, 10 oed**
***Ysgol Melin Gruffydd***



# Fy nheulu newydd



STEFFAN Jones o Ysgol Y Wern ydw i. Un diwrnod ar ddiwedd y gwyliau haf llynedd fe es i swyddfa Gaucho yn y dociau yng Nghaerdydd. Roedd llawer o ferched a bechgyn yno a phob un yn gorfod darllen rhan o sgript ac actio ychydig er mwyn dewis merch a bachgen i chwarae rhan y brawd a'r chwaer mewn cyfres o'r enw "Teulu". Ces i fy newis i chwarae rhan y brawd sef Carwyn a dewiswyd Manon Mathias i chwarae rhan y chwaer sef Sara. Fy nhad yn y gyfres oedd Ifan Huw Dafydd a Gillian Elisa Thomas oedd yn chwarae rhan fy mam. Ffilmion ni mewn nifer o lefydd, mewn tŷ ym Mhenarth, tŷ arall yn y Draethen, diwrnod yn Llandeilo ac ychydig ddyddiau mewn ysbyty. Fe fydd rhai ohonoch chi wedi gweld y stori am iddi hi ddechrau ar y teledu ar 16 Chwefror.

Roedd hi'n anodd codi'n gynnar ar brydiau ond fe wnes i fwynhau'r ffilmio er fy mod i'n cyrraedd adre'n hwyr weithiau ac wedi blino'n lân. Ar y noson pan orffennodd y ffilmio roedd parti mawr i'r criw a'r actorion ac fe ges i anrhegion gwych - lluniau ohonof ar y set a clapperboard wedi ei lofnodi gan bob un o'r criw a'r actorion mewn inc aur. Byddaf yn cofio am y profiad ffilmio am byth ond rhag ofn na welodd pob un ohonoch chi'r rhaglen, dyma fy llun i ichi.

**Steffan Jones**
***Ysgol y Wern***

# Llygredd

Wrth edrych i'r cymylau
Fe welaf fi geffylau
Yn carlamu o amgylch y byd.
Ond mae'r cnwd wedi marw.
Mae'r môr yn fwd garw
Ac mae'r coed yn pydru o hyd.
Mae'n lladd anifeiliaid bach a mawr
Mae'n llygru'r aer a llygru'r llawr.
A welwn byth eto doriad gwawr?
Glaw asid, carthffosiaeth ac yna mwg
Llygredd, llygredd dyna'r drwg.

Edrychwn o'n cwmpas.
Mae gan y byd bwrpas
Fydd wedi'i ddifetha cyn hir.
Os na allwch chi
Ac os na alla i
Weithio i achub y tir

**Gethin James, 9 oed**
***Ysgol Melin Gruffydd***

# Branwen

ROEDD Branwen wedi priodi Matholwch o Iwerddon ac roedd pob un yn hapus drostynt, nes iddynt glywed fod Matholwch yn gas ofnadwy i Branwen. Roedd Efnisien, hanner brawd Branwen, wedi torri cegau, clustiau a chynffonnau ceffylau Matholwch ac roedd Matholwch wedi penderfynu cosbi Branwen am hynny. Yr unig ffrind oedd ganddi oedd y ddrudwy fach. Bob dydd byddai'n dod i siarad â hi. Roedd baban gan Branwen o'r enw Gwern ac mi ddylai popeth fod yn iawn ond doedd Branwen ddim yn cael bywyd da o gwbl. Felly un diwrnod dywedodd wrth y ddrudwy, "Mae gen i frawd sy'n gawr. Ei enw yw Bendigeidfran. A wnei di fynd â'r llythyr yma ato? Mae'n byw mewn castell yng Nghymru. Aeth y ddrudwy fach â'r neges.

Bore trannoeth gwelodd Matholwch goedwig yn y môr. "Beth sy'n mynd ymlaen?" gofynnodd. "Fy mrawd sy'n dod i fy achub," atebodd Branwen. Fe geisiodd Matholwch ddianc ond methodd. Yna fe geisiodd Matholwch gael heddwch trwy ddweud, "Fe all Gwern fod yn frenin." Ond doedd hynny ddim yn ddigon, felly penderfynon nhw adeiladu castell anferth i Bendigeidfran a'i wneud ef yn frenin.

Ond chwaraeodd y Gwyddelod dric ar Bendigeidfran a rhoi milwyr mewn sachau ac esgus mai blawd oedd ynddynt. Daeth Efnisien i mewn a gofyn, "Beth sydd yn y sachau?" "Blawd," atebodd y Gwyddelod ond fe deimlodd Efnisien y sachau a gweld mai dynion oedd yno ac fe laddodd e nhw. Fe ddechreuon nhw ymladd ond fe daflodd Efnisien Gwern i'r tân. Ceisiodd Branwen ei achub ond tynnodd Bendigeidfran hi'n ôl. Roedd crochan gan y Gwyddelod a phan fydden nhw'n taflu'r bobl farw i mewn iddo bydden nhw'n dod ma's yn fyw ond yn methu siarad. Neidiodd Efnisien i mewn iddo a'i dorri'n bedwar. Gofynnodd Bendigeidfran i'w bobl dorri ei ben i ffwrdd a'i gario yn ôl i Lundain. Aeth Branwen yn ôl i Gymru ond mewn ychydig amser bu farw. Roedd yr holl dristwch wedi torri'i chalon.

**Hannah Fflur, 9 oed *Ysgol Melin Gruffydd***

# Mynd i Sain Ffagan

AR ddydd Gwener olaf Ionawr, fe aethon ni, ddisgyblion Blwyddyn 2, Ysgol y Wern, i weld bythynnod Rhyd-y-car yn Sain Ffagan. Dyddiadau'r bythynnod oedd 1805, 1855, 1895, 1925 a 1955. Doedd dim trydan i'w gael yn yr hen fythynnod. Roedd yno degell, crochan, fforc dostio a haearn smwddio ar y lle tân.

Roedd y bobl yn yr hen ddyddiau yn ymolchi mewn twba o flaen y tân. Roedd yn rhaid cael dŵr o'r tap tu allan neu o bwmp dŵr. Llawr cerrig oedd yn yr hen dai, yn wahanol i'r carped moethus sydd gennym gartref. Roedd y tai yn dywyll ac roedden nhw yn cael golau wrth gynnau cannwyll neu lamp olew. Ar ôl dysgu llawer am yr hen ffordd o fyw, fe ddaethon ni'n ôl i'r ysgol ar y bws. Roedden ni wedi mwynhau'r fawr.

***Marc Haynes, Tomos Rook, Llŷr Davies, Elinor Carson,***
**Rhys Hughes, Owain Thomas**

COFIO

# Dyddiau difyr

**Roedd KC16 yn destun ysgrif enwog gan T H Parry-Williams, ond fe fydd BKG 189 yn golygu mwy i rai o drigolion Caerdydd y tridegau, fel yr eglurodd BRIAN EVANS mewn sgwrs â'r Dinesydd am ei atgofion cynnar ef am Rachel Thomas.**



## RACHEL THOMAS

WN i ddim faint deithies i'n blentyn yn y car bach yna â'r rhif BGK 189. Ar un olwg, car Hywel a Rachel Thomas oedd e ond os bu car yn perthyn i'r Achos erioed, yna'r Ford Eight oedd hwnnw. Fe fydde fe'n mynd ar hyd heolydd Caerdydd yn gyson i godi plant i fynd i Minny Street, i ryw ymarfer neu'i gilydd, boed yn ymarfer côr neu'n ymarfer cydadrodd.

Rachel fyddai'n cymryd yr ymarferion cydadrodd ac rwy'n cofio cael mynd yn sgil hyn yn blentyn chwech oed i stiwdios y BBC a chael cwrdd â neb llai na Nantlais Williams oedd yno'n adrodd stori wrth y plant ar y pryd.

Os na fyddai'r car ar gael roedd yn rhaid cerdded a doedden ni'n cwyno dim. Roedd yn ffordd o fyw i ni, yn rhan naturiol o'n bywyde ni.

Ac edrych yn ôl rwy'n gweld bod Rachel yn dyblu fel mam i fi. Os nad oedd Mam, Gwyneth Ann, yn digwydd bod gartre ar unrhyw adeg, hi fyddai'n paratoi bwyd i fi. Roedd Mam yn ddigon prysur ei hunan a hithau'n organyddes Minny Street a 'Nhad yn godwr canu. Ac fe fyddai Delyth (merch Rachel) yn dod draw at Mam i gael gwersi piano. Roedd Rachel mor annwyl gan bawb ac wn i ddim i faint ohonon ni yr oedd hi'n fam fedydd. Roedden nhw fel teulu'n hawdd closio atyn nhw. Roedd Hywel yn dipyn o denor, ond doedd Rachel ddim yn dangos y diddordeb mwya mewn canu, ond doedd dim ots a hithau mor dda ym myd y ddrama. Fe fedra i gofio un cynhyrchiad arbennig yn gynnar yn y pedwardegau. Roedd Capel Minny Street wedi penderfynu llwyfannu pasiant i ddathlu'r Genhadaeth Dramor a Rachel, wrth gwrs, oedd yn cynhyrchu. Rwy'n cofio'n awr y llwyfan anferth a'r goleuadau, a'r dillad lliwgar, rhai wedi gwisgo fel pobl India ac eraill wedi gwisgo fel pobl Japan, a'r cyfan yn cario'r plant ar eu hunion i fyd hud a lledrith.

Gan mai plentyn oeddwn i, dyw'r cof ddim yn hollol glir ond rwy'n cofio bod Y Parchedigion Huw Ethall a Brychan Huws yn chwarae rhannau cenhadon hedd.

Ar ôl gweithio yn Llanbradach am sbel fe ddaeth Hywel, ychydig cyn iddo gael ei daro'n wael, yn brifathro yn Ysgol Gynradd Yr Eglwys Newydd. Ond roedd ysgol o fath arall yn mynd â bryd y ddau. Roedden nhw ymhlith y criw bychan fu wrthi'n cludo plant ar fore Sadwrn i gael gwersi festri yn yr "Ysgol" Gymraeg gyntaf yn y ddinas. A doedd dim dewis gan y plant ond mynd, wrth gwrs. Meddyliwch am Iwan Guy, chwech oed, druan - prifathro Ysgol Gymraeg Maesteg erbyn hyn, yn cwyno'i bod hi'n ysgol bob dydd arno fe, a chyfrif y bore Sadwrn a'r Ysgol Sul! A chan fod ei dad mor flaenllaw â neb gydag addysg Sadwrn, doedd ganddo fe neb y gallai gwyno wrtho ar ei fyd.

Mae llawer yn sôn am addfwynder Rachel ac maen nhw'n iawn, ond roedd hi hefyd yn wraig benderfynol, yn wraig a rhuddin iddi. Gall un stori egluro hyn.

Digwyddai fy ngwraig, Glenys fod yn sâl yn Ysbyty Rhydlafar ar y pryd, a doedd Rachel ddim yn gyrru car, ond roedd yn benderfynol o ddod i'w gweld. Mae'n siwr nad oedd lifft gyfleus i'w chael ar y pryd a golygodd yr ymweliad newid bys fwy nag unwaith a cherdded cryn dipyn - ond yr hyn sy'n bwysig yw - roedd hi yno! Fe fydd hiraeth mawr ar ei hôl. **D**

## 'MAM CYMRU'

### Mae Catrin Rowlands yn cofio person arbennig iawn...

MAE Rachel Thomas wedi cael ei galw'n 'fam' Cymru; roedd ei haddfwynder yn ddiarhebol, a'i dawn yn ddi-ben-draw.

Dyna'r actores, y Gymraes a chyfeilles i gannoedd o gyw actorion a gafodd y fraint o ddysgu eu crefft wrth ei thraed am ddegau o flynyddoedd. Mae gennym ni i gyd ein hatgofion ohoni, a stori i'w hadrodd am y wraig arbennig hon.

Cefais i y fraint o'i chyfarfod am y tro cyntaf yn yr hen gapel oedd wedi'i droi'n stiwdio deledu ar gyfer rhaglenni'r BBC yn Broadway ar ddiwedd y 50au. Roeddwn yn cael cyfweliad gyda Carwyn James ar un o raglenni Nan Davies.

Dyna beth oedd profiad erchyll - crynu yn f'esgidiau er bod yr addfwyn Carwyn yn gwneud ei orau glas i dawelu fy nerfau. Ac yng nghanol y cwbwl, pwy oedd yn westai arall ar y rhaglen ond yr enwog Rachel Thomas. Dyna beth oedd anrhydedd! Ymddangos ar yr un rhaglen â'r Rachel Thomas oedd wedi chwarae gyferbyn â Paul Robeson yn Proud Valley, i enwi dim ond un o'r cymeriadau y bu yn eu portreadu ar ffilm a theledu.

Roedd hi'n adrodd un o straeon enwog Islwyn Williams a dyna'r tro cyntaf i ryw "Gog" bach fel fi glywed iaith lafar gyfoethog Cwmtawe. Roedd pawb yn y stiwdio wedi ei wefreiddio wrth glywed Rachel Thomas yn adrodd y stori heb gopi o unrhyw fath i'w chynorthwyo i gofio'r geiriau. Roedd pob gair, brawddeg a chymal, yn llithro iddi ar ei gwefusau fel mêl.

Dyna fy atgof cyntaf ohoni, ac fe'i trysoraf.

# Syr Cennydd Traherne




DYMA gymeriad unigryw - gŵr a wnaeth lawer dros Gymru a'r iaith.

Roedd ef a'i briod yn gymeriadau unigryw. Ar wahân i ddysgu Cymraeg roedd diddordebau'r ddau yn amrywiol iawn. Cofiaf weld rhaglen ar Lady Traherne oedd yn adrodd ei hanes yn hedfan awyrennau - roedd wedi dechrau hynny flynyddoedd cyn i ddynion, heb sôn am ferched, feddwl am fentro i'r entrychion.

Ac yn eu cartref yn Coedarhydyglyn ym Mro Morgannwg roedd croeso i bawb. Mynychai'r ddau gyrsiau dysgu Cymraeg yng Ngholeg Harlech yn rheolaidd.

Ac fel ei briod, ei annwyl Rowena, gadael y fuchedd hon yng nghanol bywyd prysur fu hanes Syr Cennydd. Roedd wedi bod yn cynrychioli'r Frenhines mewn seremoni arbennig ychydig oriau cyn ei farw yn ei gartref.

**Catrin Rowlands**

# Y Parch Glyn Richards

MAE'N drist cofnodi marw'r Parchedig Glyn Richards M.A., B.D., M.Lit.

Fe gafodd ei eni yn Port Talbot, yn un o wyth o blant ac ar ôl rhoi'r gorau i'w waith ar y rheilffordd aeth i'r weinidogaeth gyda'r Presbyteriaid fel myfyriwr aeddfed a chafodd ei ordeinio yn Nhregaron yn 1937. Bu'n weinidog wedi hynny yn Aberdâr, Manceinion, Swydd Durham a Newcastle.

Yn 1964 dychwelodd i Gymru at ei wreiddiau a dod yn weinidog mawr ei barch ar Eglwys Sant Andreas, Y Rhath. Ymddeolodd yn 1973 a threulio gweddill ei ddyddiau yn Rhiwbeina.

Roedd ganddo ddiddordeb mawr yn y "Pethe" ac yn enwedig yr Eisteddfod Genedlaethol. Enillodd ei phrif lawryfon am adrodd. Ar ôl iddo ymddeol, trodd at farddoni a dangosodd ei fod yn fardd uwch na'r cyffredin a daeth ei enw'n enwog i eisteddfodwyr ym mhobman. Ymgeisiodd am y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan ymwelodd â Chaerdydd yn 1978 a phe bai un beirniad wedi cael ei ffordd byddai ei folawd i'r brifddinas wedi rhoi'r hawl iddo eistedd yn fuddugol yn y gadair honno.

Bu ei wraig Dorothy farw yn 1988. Roedd hi'n chwaer i John Morgan Nicholas sy'n enwog am ei emyn, "Bryn Myrddin".

Roedd yn addolwr cyson yn Beulah, Rhiwbeina a bydd yr eglwys honno, y gymuned leol a dinas Caerdydd, yn ogystal â'i deulu'n dristach ac yn dlotach o'i golli. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i ferch, Mrs Margaret Ryan o Aberdâr. Gan droi at Chaucer, ac ymddiheuro iddo'r un pryd, gallwn ddweud ei fod yn "gentle parfait Pastor."

**Hubert Davies**

# Margaret Thomas

BU farw Mrs Margaret Thomas, Manor Way, yn ddiweddar. Yr oedd Mrs Thomas yn aelod ffyddlon o Gymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd, ac yn aelod o bwyllgor gwaith y Gymdeithas am flynyddoedd lawer. Fe welir ei cholli'n fawr iawn. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w phriod, Mr. Leslie Thomas, eu mab, Alun, a gweddill y teulu, yn eu profedigaeth.

**Mae yng Nghaerdydd lu o gymdeithasau a sefydlwyd i ddiogelu'r Pethe. Dyma gip ar un ohonyn nhw.**




# Cymdeithas Cymru'r Eglwys Newydd


CWMNI o ryw ddau ddwsin sy'n gofalu am barhad gweithgareddau ein Cymdeithas ni, o dan arweiniad swyddogol Mrs Megan Williams a Mrs Mair Edwards. Am 7.30 o'r gloch ar yr ail nos Wener y mis y cyfarfydd yr aelodau yn neuadd Bethel, Heol Pen-llin, yng nghanol yr Eglwys Newydd, lleoliad cyfleus o bob safbwynt. Hawlia traddodiad fod cyfarfod cyntaf y gaeaf, sef cyfarfod mis Hydref, yng ngofal y Llywydd am y tymor, a bod cyfarfod ola'r tymor ym mis Mawrth, yn ddathliad Swper Gŵyl Ddewi.

Achlysur o natur traddodiadol hefyd yw'r Noson Nadoligaidd ym mis Rhagfyr. Eleni cafwyd noson gofiadwy o dan arweiniad Côr Eglwys y Tabernacl, yr Ais. Pwnderfynwyd ymlaen llaw fod elw ariannol y noson i'w neilltuo i hybu gwaith Cymdeithas Bobath Cymru. Sicrhawyd elw o £266, hynny ynddo'i hun yn tystio i bresenoldeb a haelioni llu o gyfeillion. Y mae cofnodi mai'r cyfeillion Ray Evans, Eirlys Parry ac E. Wyn James a'n diddanodd ni yn y cyfarfodydd eraill yn ddigon. Cynhelir swper Gŵyl Ddewi nos Wener 10 Mawrth. Y gŵr gwadd fydd ein cyfaill Aled Gwyn. Buan y daw diwedd tymor arall.

Gofid yw gorfod nodi mai cyfeillion wedi ymddeol sydd fwy neu lai'n sicrhau parhad y Gymdeithas. Ymddengys bod llu o Gymry Cymraeg yn byw yn yr Eglwys Newydd. Dichon na fedrent fynychu'r chwe chyfarfod, eithr onid yw'n bosibl iddyn nhw ystyried ymuno â ni'n achlysurol? Beth yw cyfrifoldeb yr unigolyn pan ddaw hi'n fater diogelu Cymreictod yr unedau pentrefol o fewn y ddinas?

Os am ragor o fanylion am Gymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd, cysyllter â'r Ysgrifennydd, Mrs Megan Williams, 69 Heol-y-gors, yr Eglwys Newydd (Ffôn: 628733).

**Dafydd G. Davies**
***Llywydd***



# Fuoch chi rioed yn morio?

**Mae Allan Greedy yn bur hoff o hwylio'r moroedd, gan fynd i fannau digon diddorol. Ond ar un adeg fe fethodd e lle llwyddodd Moses, a dim ond ffon oedd gan hwnnw. Rydym ni'n dechrau gyda phwt neu ddau o'i lyfr log am fis Ebrill 1994...**

*TRYDYDD ar ddeg o Ebrill 1994*

*10am - gwelais y rîff cyntaf yn y Môr Coch - darn hyfryd o dywod yn union o'm blaen. Llawer iawn o adar a hanner dwsin o ddolffiniaid. Awel gref, braf o'r gogledd-ddwyrain nawr.*

*14 Ebrill 1994*

*10am - Dim ond 4 i 5 awr drwy'r môr agored ac yna ar fy union i lawr i Port Sudan.*

*3pm - Heibio i'r rîff olaf. Parhau ar y cwrs hwn cyn troi ychydig i fynd i lawr i Port Sudan. Pe bawn heb fynd i lawr i grombil y cwch i ysgrifennu'r ychydig linellau hyn mae'n debyg y byddai S.S. Hiraeth yn dal i hwylio heddiw.*

...Beth ddigwyddodd? Pwy oedd yn ei hwylio? Allan Greedy o'r Sili ac yn un o ddarllenwyr brwd Y Dinesydd.

Un o'r bobl hynny a drowyd yn Gymry Cymraeg yng Nghaerdydd o dan ddylanwad y diweddar Elvet Thomas yw Allan. Dechreuodd weithio yn Adran Hysbysrwydd y Swyddfa Gymreig yn Heol y Parc yng Nghaerdydd pan oedd honno'n rhan o'r Weinyddiaeth Hysbysrwydd yn Llundain yn fuan wedi'r rhyfel. Hyd yn oed y pryd hwnnw doedd dim posibl ei gadw ar dir sych am amser hir ac roedd ei helyntion gyda'i wahanol gychod yn ddigon i godi gwallt eich pen.

Ar ôl ymddeol o'r Swyddfa Gymreig dim ond un nod oedd gan Allan sef hwylio o gwmpas y byd. Mae wedi bod mewn bron pob porthladd y gallech feddwl amdano yn ystod y naw mlynedd diwethaf, ac wedi cael y profiadau rhyfeddaf. Ond ym mis Ebrill llynedd collodd ei gwch, S.S. Hiraeth yn y Môr Coch ar ôl bwrw rîff nad oedd wedi ei marcio.

Mae wedi cadw dyddiaduron manwl o'i siwrneiau er iddo golli llawer pan suddodd Hiraeth. Mae wedi addo rhoi ei atgoffion ar bapur, ac yn Y Dinesydd o'r mis nesaf ymlaen a gobeithiwn ddod â'r hanes ichi bob yn damaid. Cofiwch mai yn Y Dinesydd yn unig y bydd yr hanes.

Rhaid cofnodi ei stori pan fo ar dir sych, ond os gofynnwch chi iddo a fydd yn prynu cwch arall, ei ateb yw, "Cawn weld, cawn weld".

**D**

# Y Cylch Llyfryddol




AELOD o'r Cylch, un o'i Gyn-gadeiryddion ac un o'i sylfaenwyr, y Bonwr Alun Mathias, fu'n ein difyrru ar 17 Chwefror wrth sôn am "Brofiadau Casglwr". Fe'i maged yng Nghaerdydd, er mai o Orllewin Cymru yr hanai ei rieni a chawsom rywfaint o'i hanes cynnar yn ysgolion Gladstone a Parc y Rhath ac yn "Cardiff High" lle safodd arholiad yr Higher mewn Saesneg, Cymraeg a Ffrangeg. Ymddiddorai'n fawr yn llyfrau gosod y tri phwnc ac mae'n dal i'w trysori.

Dechreuodd gasglu'n gynnar iawn - llyfrau anrhegion am hel arian at y Genhadaeth Dramor a gwobrwyon o Ysgol Minny Street. Soniodd wrthym am chwilota mewn catalogau a anfonai llyfrwerthwyr fel Griffs, Llundain a J R Morris, Caernarfon, ato; am oriau a dreuliai yn siopau enwog John Evans a Beti Rhys yma yn y brifddinas; am archwilio hysbysebion ac ymweld ag ocsiynau.

Un peth yw casglu llyfrau; peth arall yw ymgyfarwyddo â'u cynnwys ac roedd yn amlwg, wrth inni wrando arno'n sôn am ei lyfrau a dyfynnu ohonyn nhw, o'i gof yn aml, mai i'r dosbarth olaf y perthyn Alun Mathias. Noson ddifyr iawn - diolch i Alun amdani.

**D**

CHWARAEON

GYDA
**TOM DAVIES**

# Y Maes Cenedlaethol

CHWARAEWYD yr ornest ryngwladol gyntaf ar y cae enwog hwn ar Ebrill 12fed, 1884, pan gurwyd Iwerddon o ddau gais a gôl adlam i ddim, a chan mlynedd yn ddiweddarach - ar Ebrill 7fed, 1984 - bu Cymru'n chwarae tîm a ddewiswyd gan Lywydd yr Undeb i ddathlu cwblhau'r Stadiwm newydd. Cae Clwb Caerdydd oedd ef hyd 1967 pan gafwyd cytundeb rhwng perchnogion y cae, Clwb Athletig Caerdydd a'r Undeb, wedi hir ddadlau a checru, a rhoddodd Cyngor y Brifddinas dir yng Ngerddi Soffia ar gyfer y criced a thenis. Darparwyd cyfleusterau i glwb Caerdydd chwarae ar y cae lle byddai'r criced.

## Pwynt diddorol

Hyn sy'n ddiddorol: yr oedd yr anawsterau i gael cytundeb rhwng y Clwb a'r Undeb mor fawr fel i'r Undeb chwilio am le addas yn y ddinas, ac yna ym Mhen-y-bont. Yn 1962 cytunodd y clybiau yng Nghyfarfod Blynyddol yr Undeb y dylid lleoli Maes Cenedlaethol newydd ym Mhen-y-bont, a'r flwyddyn honno arwyddwyd cytundeb i brynu 80 erw yn Fferm yr Ynys ger y dref honno. Bu problemau lawer, beth bynnag, ac yn 1964 rhodddwyd y gorau i'r cynllun i leoli'r Maes Cenedlaethol yno. Oni bai am yr anawsterau hynny a godwyd gan yr Awdurdodau Cynllunio gan mwyaf, ym Mhen-y-bont y buasai'r Maes, ond erbyn 1967 rhoddodd y clybiau sêl eu bendith ar gynllun yr Undeb i ddatblygu'r maes yng Nghaerdydd. Daethai'r Maes Cenedlaethol i fodolaeth lle byddai Parc y "Cardiff Arms" (tafarn a safai yn Heol y Porth oedd honno): hen dro i'r maes gael yr enw "Parc yr Arfau" - anwybodaeth a fu'n gyfrifol am hyn, rhywun yn chwilio mewn geiriadur am y gair am "Arms" yn ddiau. "Y Maes Cenedlaethol" - dyna'r enw, gall y genedl ymhyfrydu ynddo, er gwaethaf erfyniad Ken Harris, Trysorydd yr Undeb a fu'n llywio'r datblygu dros ei ugain mlynedd diwethaf, ar i bawb gadw'r enw gwreiddiol "Cardiff Arms Park".

## Maes mawr bach?

Y Maes Mawr, onidê, ond nid yw'n ddigon mawr i sicrhau mai arno ef y chwaraeir Rownd Olaf Cwpan y Byd yn 1999. 51,379 a gaiff wylio gornest yno'n awr, a bydd raid cael lle i o leiaf 70,000 i ddenu'r Rownd Olaf ymhen pedair blynedd. Datblygu'r stadiwm hon neu godi un newydd ym Mhen-y-bont, dyna'r cwestiwn: credaf fi mai yn ein Prifddinas y dylai ein Maes Mawr fod. **D**


# DEFNYDDIWCH "LAIS y GYMUNED"

Sefydlwyd *y Dinesydd* ym 1973 fel papur bro cyntaf Cymru, a bellach gall gynnig cyfle marchnata unigryw i gyrraedd yn gyson dros 14,000 o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y Brifddinas a'r cylch (6.4% o'r boblogaeth).

Dengys ein harolygon bod mwyafrif ein darllenwyr yn y grwpiau ABC1, ac yn eu plith mae rhai o bobol mwyaf dylanwadol y genedl. Mae cylchrediad *y Dinesydd* yn uwch o lawer nag unrhyw gyhoeddiad Cymraeg lleol neu genedlaethol arall.




Achubwch ar y cyfle marchnata unigryw yma.

Mae ein cyfraddau rhesymol iawn yn cynnwys:


Wythfed tudalen am £75
Chwarter tudalen am £135
Hanner tudalen am £240
Tudalen lawn am £400
Hysbysebion cyhoeddi: 25c y gair, cost minimwm £5 (yn daladwy gyda'r archeb)

Ffôniwch **Tim Pearce** neu **Justin Webb** ar 01222 452383 am ragor o fanylion.

**Cyhoeddwyr: Newsline, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX**

# CROESAIR AP LEWSYN

## Rhif 142 Mawrth 1995



**Ar Draws**

7. Fe all yr echel fod yn achlysur tyngedfennol (8)
9. Mae'r ehediad yn trosi yn daer. (6)
10. Peth o'r brandi o Dijon yr oedd y cyfaill yn or-hoff ohono. (4)
11. Fel a ddigwyddodd i Siarl I, ac ymhen blynyddoedd i'w fab James hefyd. (10)
12. Rheolwr yn newid y drefn i ddilyn llinell arall. (6)
14. Bydd pethau yn troi'n llyniannus os ewch ati i sychu'r llew. (8)
15. Yr oedd lau yn un ohonynt, yn enwedig wedi iddo droi yr uwd oedd o'i flaen. (6)
17. Mae Dai a Sal yn clywed eco. (6)
20. Rhoddir cefnogaeth i fudiad â grawn iddo. (8)
22. Un o'r cyrff difywyd. (6)
23. Syndod o'r mwyaf oedd cael y fath frad yn ein plith. (10)
24. Dacw hi'n troi i wneud popeth yn ddiogel. (4)
25. Un o dai haf yr hen genhedlaeth. (6)
26. Athro drwg yn peri anghydfod. (8)

**I Lawr**

1. Gwelir y newid hwn wrth droi y rhod i rod. (8)
2. Y Pab a drefnodd pwy oedd i fod yn bennaeth ar bob mynachlog. (4)
3. Achos gostwng lefel y cronfeydd. (6)
4. Gollyngwyd y cwch i'r d ŵr. (8)
5. Mae angen pres, a rhai yn taro ac yn chwythu, ynghyd â gwŷr y tannau i greu'r fath sŵn. (10)
6 Rhoi o fewn terfynau. (6)
8. Nyddu gwlân ar olwyn. (6)
13. Rheolau sylfaenol a osododd yr enwog iddo. (10)
16. G ŵr o wahanol deip? (8)
18. Cwmni sy'n gallu trin y pres (a'r arian). (8)
19. "A chanlyn yr arad goch". (6)
21. Llw diniwed yn golygu "yn bendifaddau". (2,1,3)
22. Cryf yw'r tamaid a gewch ar ôl gorffen â rhaca. (6)
24. Gwnewch hyn â phris, tocyn a braw, a hefyd â chalon, a chwestiwn, a llaw. (4)

Datrysiad at Ap Lewsyn, 13 Rannock Drive erbyn 15 Mawrth, os gwelwch yn dda.

**NODER: Oherwydd bod ymddangosiad rhifyn Mawrth yn dilyn y patrwm newydd, roedd yn rhy gynnar i gyhoeddi datrysiad y pos croesair blaenorol. Bydd datrysiadau hwnnw a Mawrth yn ymddangos yn rhifyn Ebrill.**

# Arlwy'r Sherman




AR noson Sant Ffolant daeth Cwmni Arad Goch i Arena'r Sherman i berfformio "Sgrech" gan Gareth Ioan.

Mae'r Arena'n dal ychydig dros gant a hanner o gynulleidfa ond roedd digon o le yno i dipyn dros drigain ar y noson y bu'r Dinesydd yn gweld y perfformiad.

Drama am bobl ifanc oedd hi. Gan wasgu'n galed ar y dychymyg, fe ddisgwylid i'r gynulleidfa weld pentref dychmygol Cwmcymer, rywle yng Nghymru, lle mae tri o bobl ifanc (sy'n nodweddiadol o bobl ifanc mewn unrhyw dref fechan neu bentref) yn ceisio dianc o'r cwm mewn breuddwydion.

Rydyn ni i gyd yn gyfarwydd â'u problemau nhw, gorfod wynebu disgyblaeth rhieni, dod wyneb yn wyneb â chyffuriau a theimlo nad ydyn "nhw" (y Cyngor yma) yn gwneud digon i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn y gymuned.

Cafwyd perfformiadau grymus gan y tri actor, ac roedd y set foel yn ddigon cymeradwy i'r math yma o berfformiad. Eto, roedd y cyfanwaith byr (ychydig dros awr) yn debycach i gerdd ddramatig nag i ddrama. Dibynnai lawer ar areithiau eglurhaol, ac roedd yn peri i rai ohonom hiraethu am ddrama draddodiadol am unwaith. **D**

# Cwm Glo ar y ffordd

FYDD dim rhaid inni hiraethu'n hir. Mae llawer yn edrych ymlaen at weld perfformio "Cwm Glo" (James Kitchener Davies) gan Gwmni Theatr Gwynedd yn Arena'r Sherman ar 14 ac 15 Mawrth.

Fe'i haddaswyd ar gyfer y llwyfan modern gan ferch yr awdur, Manon Rhys ac mae'r rhai sy'n cofio hanes y ddrama yng Nghymru'n cofio iddi gael croeso digon chwerw gan y beirniaid yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd yn 1934.

Roedd hyd yn oed y Western Mail yn ei galw'n Eisteddfod Sex Play, ac yn mynnu, "Sex Play Raises storm".

# Terfel Elias yn wych

GLYWSOCH chi berfformiad gwael o "Elijah" Mendelssohn erioed? Naddo, debyg; mae'r gwaith mor llawn o unawdau a darnau corawl cofiadwy a chanadwy. Ond a glywsoch chi'r perfformiad yn Neuadd Dewi Sant ar nos Sadwrn ola Mis Ionawr eleni? Naddo? Wel, fe gollsoch chi un o'r digwyddiadau mawr yn hanes y Neuadd.

Bryn Terfel oedd yn canu rhan Elias ac roedd ei ganu, ei berfformiad, ei ddehongliad a'i bresenoldeb yn wefreiddiol, dim llai. Roedd perfformiadau'r tri unawdydd arall - Sarah Walker, y contralto, Janice Watson, y soprano, a John Mark Ainsley, y tenor yn wych iawn hefyd, a chafodd y côr - Corws Cymreig y BBC - lawer o hwyl o dan arweiniaid Richard Hickocks gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

Cofiwch gadw'ch llygad ar agor am fanylion y darllediad ar Radio 3 maes o law.